




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Llwybr Datblygu'r Gymraeg

2023-24



Tiwtor Cymraeg:

Hedydd Jones

hedydd.jones@pcydd.ac.uk

Darlith 3

Dydd Mawrth, 17eg o Hydref 2023



Nod ac amcanion

- Adolygu rhannau ymadrodd.
- Methodoleg dysgu iaith.
- Dathlu Diwrnod T.Llew Jones gan edrych ar gerddi.
Cynllunio ar gyfer y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Adolygu Rhannau Ymadrodd

Rhannau ymadrodd.

- Termau gramadegol sy'n ein helpu ni i wybod sut mae geiriau'n ymddwyn e.e. sut a pham maent yn treiglo, beth yw eu lleoliad mewn brawddeg a.y.y.b.
- Gwaith pâr: Defnyddiwch y côd isod i ddechrau'r cwis.

Kahoot!

Adolygu Berfau Gorffennol

- -ais i
- -aist ti
- -odd e
- -odd hi
- -odd Sion
- -on ni
- -och chi
- -on nhw

Eistedd + ais = Eisteddais i

Rhedeg > Rhed~~eg~~ = Rhed + on ni

Gwylio > Gwyli~~e~~ = Gwyli + odd hi

Cofiwch am y
berfau
afreolaidd

SPLAT!/ CHWAP!

Eisteddon
ni

Prynais i

Darllenodd e

Gwelais i

Bwytais i

Aeth e

Teimlais i

Yfodd hi

Gwrandawon
ni

Cerddon
ni

Edrychais
i

Gwnes i

Gwelon ni

Siaradais i

Cawson ni

Adolygu Berfau Gorffennol

- Gwaith grwpiau o 3.
 - Bydd angen dis gyda'r rhagenwau canlynol: fi/ti/fe/hi/chi/ni/nhw.
 - Defnyddiwch y côd yma ar gyfer dewis eich berfenw
- 
- Bydd gan bawb munud i ddyfalu'r nifer mwyaf yn gywir: <https://www.ieithgar.cymru/adnoddau/amserydd?a=3:30>
 - Pwy ydy'r enillydd?




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Pwysigrwydd sbardun gweledol

Codi lefel yr her ...



Sut?



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Dathlu Cymreictod...

Diwrnod Owain Glyndŵr: 16^{eg} o Fedi


Gemau Cwpan y Byd

Diwrnod T.Llew Jones: 11^{eg} o Hydref

Shwmae, Sumae? 15^{fed} o Hydref

Dathlu Diwrnod T.Llew.Jones.

Defnyddio sbardun
ysgrifenedig a chynllunio
ar gyfer y 6 maes dysgu
a phrofiad.



Sut?



Mr Pigog.



Gwelais rhyw greadur
Hynod yn y cwm;
Gwisgai got o bigau,
Roedd ei gefn yn grwn.

“Noswaith dda’r hen gyfaill.”
Meddwn wrtho’n llon,
Ond gwarchod- cyn pen winciad
Aeth yn belen gron!

Cerddai fel hen wreigan
Bedwar ugain oed
Yn chwilio am chwecheiniog
Dan ganghennau’r coed.

Pelen gron o bigau,
Heb na llaw na throed,
On’d oes ‘na bethau rhyfedd
I’w gweld yn y coed?

Mr Pigog.



Gwaeddais arno wedyn,
“Beth sy’n bod ‘rhen ffrind?
Ble mae’r coesau byrion
A’r trwyn wedi mynd?”

Ond... â’r coed yn ddistaw,
Heb undyn a’i gwêl,
Daw’r trwyn a’r coesau eto
Allan o’r bêl.

Distawrwydd! Gweiddi eto
Ddwy waith neu dair,
Ond heb gael unrhyw ateb-
Dim un gair.

gan T.Llew Jones (*Cerddi Newydd i Blant, T.Llew Jones, Gwasg Gomer*)



Pa nodweddion arddull a welwch chi yn y gerdd?

Ewch ati i greu allwedd:

- Berf
- Berfenw
- Ansoddair
- Cyffelybiaeth
- Deialog
- Trosiad
- Rhestru
- Ebychiad

6 Maes Dysgu a Phrofiad.

<u>Y Celfyddydau Mynegiannol</u> - Defnyddio dail i greu llun anifail. - Ymchwilio am waith arlunydd sy'n tynnu lluniau anifeiliaid.	<u>Iechyd a Lles</u> Taflen wybodaeth sut mae gofalu am anifail.	<u>Y Dyniaethau</u> Cartrefi'r Oesoedd.
<u>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</u> Cerdyn cymeriad gan gynnwys ansoddeiriau, cyffelybiaethau ayyb.	<u>Mathemateg a Rhifedd</u> Casglu data a chreu graff e.e. Hoff anifail yr Hydref?/ Casglu dail: Sawl deilen felen?	<u>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</u> - Gwaith ymchwil, ble mae'r 7 cysgadur yn byw? - Creu Gwesty Draenog.

Noson Tân Gwylt

Blodau yn yr awyr
Â'u petalau tân,
A'r gwenyn o'u cwmpas
Yw'r gwreichion mân.

Ffynnon yn byrlymu
A'r dŵr yn llifo o liw gwaed
A bang! bang! ergydion
O gylch fy nhraed.

Rhoi'r hen ddyn yn barod
Uwch y pentwr dail,
Gweld y fflamau'n neidio
I fyny o'r sail.

Gwichian, gweiddi, sgrechian
Wrth weled y fflam
Yn llyfu'i ddillad carpiog
A'i hen gorff cam.

Noson Tân Gwylt

Sobri tipyn wedyn,
Ofni....a mynd yn fud,
Wrth weld y tân newynog
Yn ei fwyta i gyd.

Yna chwerthin eto,
A gweiddi'n groch
Wrth wyllo hynt y roced
Â'i chynffon goch.



gan T.Llew Jones. (*Cerddi Newydd i Blant, T.Llew Jones, Gwasg Gomer*)

Eich tro chi...

<u>Y Celfyddydau Mynegiannol</u>	<u>Iechyd a Lles</u>	<u>Y Dyniaethau</u>
<u>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</u>	<u>Mathemateg a Rhifedd</u>	<u>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</u>



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Darlith nesaf: 17^{eg} o Hydref 2023 2- 4 y.p.

